



## Dydd Mawrth 14 Ionawr 2014 – Bore

### LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCH

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

Mae ymgeiswyr yn ateb ar y Papur Cwestiynau.


**Deunyddiau a ddarperir gan OCR:**

- Copi Glân o'r Astudiaeth Achos

**Deunyddiau eraill angenrheidiol:**

Dim

**Amser: 1 awr**



Enw cyntaf yr ymgeisydd		Cyfenw'r ymgeisydd	
----------------------------	--	-----------------------	--

Rhif y ganolfan						Rhif yr ymgeisydd				
-----------------	--	--	--	--	--	-------------------	--	--	--	--

#### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

- Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau uchod. Ysgrifennwch yn glir ac mewn priflythrennau.
- Defnyddiwch inc du. Gellir defnyddio pensil HB ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.
- Atebwch **bob** cwestiwn.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus. Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud cyn dechrau eich ateb.
- Ysgrifennwch eich ateb i bob cwestiwn yn y lle gwag a ddarperir. Gellir defnyddio papur ychwanegol os bydd angen, ond rhaid i chi ddangos eich rhif ymgeisydd, rhif y ganolfan a rhif/rhifau'r cwestiwn yn glir.
- **Peidiwch** ag ysgrifennu yn y codau bar.

#### GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi'i nodi mewn cromfachau [ ] ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
- **60** yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **12** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

## ADRAN A

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u seilio ar sefyllfa 1 yn yr astudiaeth achos a'ch ymchwil gefndirol.

Atebwch **bob** cwestiwn.

1 Mae gan y swyddfa dri chyfrifiadur bwrdd gwaith ac un gliniadur.

(a) Ticiwch **un** blwch ym mhob rhes o'r tabl i ddangos a yw'r datganiad yn rhoi'r disgrifiad **gorau** o gyfrifiadur bwrdd gwaith neu liniadur.

Datganiad	Cyfrifiadur bwrdd gwaith	Gliniadur
Hawdd ei gludo ( <i>portable</i> )		
Pwysau ysgafn		
Mae angen ei blygio i mewn i gyflenwad trydan		
Bysellfwrdd ar wahân		

[4]

(b) Mae angen cysylltu'r gliniadur sy'n cael ei ddefnyddio gan y Tîm Data â rhwydwaith Ysgol Austin.

Nodwch **un** ddyfais y mae ei hangen i gysylltu'r gliniadur â'r rhwydwaith.

..... [1]

(c) Rhaid i ddefnyddiwr nodi enw defnyddiwr a chyfrinair i gael mynediad at rwydwaith yr ysgol.

(i) Disgrifiwch sut mae'r system gweithredu rhwydwaith yn defnyddio'r enw defnyddiwr.

.....  
 .....  
 .....  
 ..... [2]

(ii) Nodwch pam mae angen cyfrinair wrth fewngofnodi ar rwydwaith yr ysgol.

.....  
 ..... [1]

(iii) Rhowch **un** rheswm pam dylai'r cyfrinair hwn gael ei newid yn rheolaidd.

.....  
 ..... [1]

3

2 Mae pob un o bedwar aelod y Tîm Data wedi cwyno eu bod yn dioddef o boen yn y gwddf wrth iddynt ddefnyddio'r gliniadur.

(a) Nodwch **un** ffordd gallai aelodau o'r Tîm Data leihau'r risg o ddioddef o boen yn y gwddf wrth iddynt ddefnyddio gliniadur.

.....  
..... [1]

(b) Mae'r Tîm Data yn credu bod y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith efallai'n berthnasol i'r sefyllfa hon.

Disgrifiwch **un** cyfrifoldeb mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei roi i **gyflogwyr** sy'n darparu offer cyfrifiadur ar gyfer staff.

.....  
.....  
.....  
..... [2]

**Mae Cwestiwn 3 yn dechrau ar dudalen 4**



4 Ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol, mae ysgolion cynradd o bob rhan o'r ddinas yn anfon i Ysgol Austin y data maent yn eu storio am bob un o'u myfyrwyr Blwyddyn Chwech.

(a) Esboniwch pam gallai fod yn anghyfreithlon iddynt anfon gwybodaeth am **bob un** o'u myfyrwyr.

.....  
.....  
.....  
..... [2]

(b) Mae canlyniadau profion ar gyfer myfyrwyr yn cael eu hychwanegu â llaw at System Rheoli Gwybodaeth Cyfoeth o Ddata.

Nodwch **ddwy** ddyfais fewnbynnu a allai gael eu defnyddio i ychwanegu canlyniadau profion at y system rheoli gwybodaeth.

1 .....  
.....  
2 .....  
..... [2]

5 Mae Ysgol Austin wedi cael ei chynghori bod angen iddi gael copi wrth gefn (*back up*) o'r data mae'n eu storio yn y system rheoli gwybodaeth.

(a) Esboniwch pam mae angen cael copi wrth gefn o ddata.

.....  
.....  
.....  
..... [2]

(b) Mae Ysgol Austin yn ystyried defnyddio system wrth gefn awtomataidd.

Esboniwch **un anfantais** i Ysgol Austin o ddefnyddio system awtomataidd i gael copi wrth gefn o ddata.

.....  
.....  
.....  
..... [2]

ADRAN B

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u seilio ar sefyllfa 2 yn yr astudiaeth achos a'ch ymchwil gefndirol.

Atebwch **bob** cwestiwn.

5 Bydd Stephen yn dylunio ac yn creu'r poster ar gyfer y ddrama ysgol. Mae'r Pennaeth Celf eisoes wedi creu'r graffigwaith ar gyfer y poster.

(a) Bydd Stephen yn cael copi caled o'r graffigwaith ar gyfer y poster.

Pa ddyfais allbynnu sydd **fwyaf** addas ar gyfer creu copi caled o'r graffigwaith hyn?

..... [1]

(b) Mae Stephen yn mynd i ddrafftio'r geiriad ar gyfer y poster a'i anfon at Maria mewn ffeil prosesu geiriau ar gyfer adborth. Pan fydd hi wedi gorffen ei hadolygiad, bydd hi'n anfon y ffeil yn ôl at Stephen er mwyn iddo allu cwblhau'r poster.

Esboniwch sut gall Maria a Stephen ddefnyddio'r offer golygu ar y cyd (*collaborative*) mewn pecyn prosesu geiriau i wneud hyn yn effeithlon.

.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
..... [6]

7 Maria fydd yn dylunio'r tocyn ar gyfer y ddrama ysgol.

(a) Hoffai Maria ddefnyddio delwedd mae hi wedi dod o hyd iddi ar y rhyngrwyd yn gefndir ar gyfer y tocyn.

Nodwch y Ddeddf sy'n diogelu hawliau'r artist a greodd y ddelwedd wreiddiol mae Maria eisiau ei defnyddio.

..... [1]

(b) Rhowch **dri** cham mae'n rhaid i Maria eu cymryd cyn iddi allu defnyddio'r ddelwedd yn gyfreithlon.

1 .....

.....

2 .....

.....

3 .....

.....

[3]

(c) Mae Maria eisiau tynnu llun o ddelwedd i'w defnyddio ar y tocyn hefyd.

Esboniwch **ddau** reswm posibl pam gallai fod yn well gan Maria ddefnyddio llechen graffeg yn hytrach na llygoden wrth greu graffigwaith digidol.

1 .....

.....

.....

2 .....

.....

.....

[4]

8 Bydd data, sy'n cynnwys enw a rhif ffôn pob cwsmer sy'n prynu tocyn ar gyfer y ddrama yn cael ei storio ar gronfa ddata. Bydd yr enw wedyn yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar bob tocyn.

(a) Nodwch y cam gweithredu (*procedure*) a fydd yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu'r enwau sy'n cael eu storio ar y gronfa ddata ar y tocynnau.

..... [1]

(b) Disgrifiwch **un** fantais cynnwys yr enw ar y tocyn.

.....  
.....  
.....  
..... [2]

(c) Nodwch **un** rheswm posibl pam mae Ysgol Austin yn casglu rhif ffôn pob cwsmer.

.....  
..... [1]

(d) Nodwch ar ôl pa gyfnod addas o amser y dylai Ysgol Austin ddileu'r data ar gyfer pob cwsmer o'i gofnodion.

Esboniwch pam mae hwn yn gyfnod addas.

Cyfnod: .....

Esboniad: .....

.....  
.....  
.....  
..... [3]




- 9 Mae angen i Ysgol Austin gael ffurflen cipio data ar-lein ar ei gwefan fel bod pobl sy'n gwneud cais am docynnau yn gallu ei llenwi a'i chyflwyno yn electronig.

Yn y blwch isod, dyluniwch ffurflen cipio data ar-lein addas.

Bydd marciau'n cael eu dyfarnu ar gyfer:

- eitemau i'w cynnwys
- defnydd da o'r lle (*space*)
- pa mor addas at ei diben yw'r ffurflen
- anodiadau i gyfiawnhau penderfyniadau.



[9]

**10**  
**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**

**11**  
**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON****Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwmo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus ([www.ocr.org.uk](http://www.ocr.org.uk)) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.